# Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014

**2014 dccc 6**

*Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru*

## 2 Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, sefydlu panel a elwir Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru ("y Panel") i gyflawni'r swyddogaethau a restrir yn is-adran (2).

(2) Y swyddogaethau yw—

(a) hybu gyrfaoedd mewn amaethyddiaeth;

(b) llunio gorchmynion cyflogau amaethyddol ar ffurf ddrafft, ymgynghori ar y gorchmynion hynny a'u cyflwyno i Weinidogion Cymru i'w cymeradwyo;

(c) cynghori Gweinidogion Cymru ar unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud â'r sector amaethyddol yng Nghymru sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru;

(d) unrhyw swyddogaethau eraill a bennir gan Weinidogion Cymru yn y gorchymyn.

(3) Mae'r Panel i gynnwys—

(a) aelod i gadeirio'r Panel, a

(b) o leiaf 3, ond dim mwy na 10, aelod arall.

(4) Wrth arfer unrhyw swyddogaethau mewn perthynas ag aelodaeth y Panel, rhaid i Weinidogion Cymru geisio sicrhau bod yr aelodaeth—

(a) yn cynnwys personau â'r sgiliau a'r arbenigedd sy'n angenrheidiol er mwyn galluogi'r Panel i gyflawni ei swyddogaethau yn effeithlon ac yn effeithiol, a

(b) yn adlewyrchu buddiannau pob rhan o'r sector amaethyddol yn ddigonol.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, wneud darpariaeth—

(a) ynghylch cyfansoddiad a thrafodion y Panel;

(b) ynghylch penodi aelodau i'r Panel;

(c) ynghylch pwerau cyffredinol y Panel;

(d) sy'n ychwanegu at swyddogaethau'r Panel, yn eu diwygio neu yn eu dileu.

(6) Cyn gwneud gorchymyn o dan yr adran hon rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau sy’n briodol yn eu barn hwy.